Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Corwen Day Nursery
# Oddi ar Lôn Werdd
# Corwen
# LL21 0DN

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Corwen Day Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Corwen Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Carmen Roberts-Davenport |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Amy Snow a Cheryl Bodden |
| Nifer y lleoedd | 58 |
| Amrediad oedran y plant | 6 mis i 12 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 21 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 7.30yb – 6.00 yh |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 18 Mai 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 23/01/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cysoni'r arferion cryfaf o ran technegau i holi'r plant wrth iddynt chwarae

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae gan y plant lais cryf iawn yn y lleoliad. Maent yn gwneud llawer o ddewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Ar gyfer rhannau helaeth o bob sesiwn, gall y plant ddewis beth y byddant yn chwarae ag ef. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau diddorol i lunio eu cyfleoedd chwarae eu hunain ac i ddatblygu eu syniadau. Mae bron pob plentyn yn cyfathrebu'n hyderus, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn dibynnu ar ddulliau llafar yn unig, gan eu bod yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau setlo llwyddiannus a hyblyg yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel ac i ymlacio. Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn barod i ddechrau ei ddiwrnod. Caiff y nifer fach iawn o blant sydd ychydig yn dawel neu'n ofidus pan fyddant yn cyrraedd eu cefnogi'n effeithiol iawn gan ymarferwyr. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes ac agos gyda'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallent sôn wrthynt am yr hyn y maent ei eisiau. Er enghraifft, mae'r plant yn gofyn am fwy o ddŵr pan fydd syched arnynt, neu'n holi am gael darllen stori gydag ymarferydd pan fydd awydd arnynt.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn fel sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygiad. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd. Maent yn dysgu i ddilyn rheolau ac i barchu pobl eraill ac eiddo, er enghraifft pan fyddant yn cydweithio er mwyn helpu i dacluso.
Mae bron pob plentyn yn ymddiddori'n frwd ac yn barhaus yn eu chwarae. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau diddorol a chyffrous iddynt ddewis o'u plith. O

ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ganolbwyntio a dyfalbarhau, ac mae bron pob un ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Er enghraifft, maent yn defnyddio bagiau te a ffa coffi iawn i greu diodydd ar gyfer ei gilydd. Maent yn dangos cyffro wrth egluro eu bod wedi bod am dro ac wedi bod yn neidio mewn pyllau dŵr mwdlyd. Mae cyfnodau grŵp gwerthfawr dan arweiniad oedolion hefyd o fudd i'r plant, er enghraifft y cyfnodau amser llyfr a chyfleoedd i ganu. Ar y cyfan, mae'r plant yn dangos brwdfrydedd wrth ymuno yn y cyfnodau hyn.

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu'n dda drwy'r cyfleoedd eang a ddarperir iddynt. Drwy symud rhwng gweithgareddau a dilyn eu diddordebau eu hunain, maent yn meithrin hyder wrth wneud dewisiadau ac yn gofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn meithrin annibyniaeth ac yn cyflawni tasgau ymarferol drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn gwisgo a thynnu eu cotiau a'u hesgidiau glaw, yn gweini cinio ar eu platiau, arllwys eu diodydd eu hunain a rheoli eu hanghenion personol fel golchi eu dwylo'n annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn iawn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau trwyadl y lleoliad mewn perthynas â hylendid ac iechyd a diogelwch. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Mae gan yr arweinwyr systemau addas ar gyfer rhoi meddyginiaethau os bydd angen ac ar gyfer rheoli anghenion iechyd penodol plant unigol. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gyda'r plant. Maent yn darparu byrbrydau iach a llaeth neu ddŵr i'w yfed. Mae systemau addas ar waith i ymdopi ag alergeddau. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn galluogi'r plant i dreulio cryn dipyn o amser yn yr awyr agored bob dydd, ymhob tywydd, sy'n sicrhau eu bod yn cael digon o awyr iach ac ymarfer corff. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofrestrau presenoldeb cywir a llyfr ymwelwyr ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at ddarpariaeth ddiogel i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes, hamddenol a chyfeillgar, gan greu awyrgylch cadarnhaol, hapus a bywiog. Mae'r ymarferwyr yn bwyllog ac yn barchus wrth siarad â'r plant ac wrth

siarad â'i gilydd, gan gynnig esiampl ragorol i'r plant. Er enghraifft, pan mae angen hances bapur ar blentyn, maent yn ei holi'n gwrtais os hoffai iddynt sychu ei drwyn. Mae polisi rheoli ymddygiad addas yn annog yr ymarferwyr i ddefnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio ac arddangos er mwyn ymdrin â mân ddigwyddiadau. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad eu hunain mewn awyrgylch sy'n meithrin a hyrwyddo eu hunan-barch.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae systemau da iawn ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar gyngor arbenigwyr fel therapyddion iaith a lleferydd. O ganlyniad, mae pob plentyn yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu datblygiad.

Mae'r ymarferwyr yn ymatebol iawn i anghenion y plant. Maent yn chwarae'n effeithiol â'r plant er mwyn cefnogi ac ehangu'r dysgu, er enghraifft, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o iaith fathemategol, archwilio llyfrau, trafod syniadau a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol ym mhob un o'r meysydd dysgu a datblygu. Maent yn ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant ac yn deall pwysigrwydd caniatáu iddynt barhau i chwarae am gyfnodau estynedig pan fydd rhywbeth o ddiddordeb arbennig iddynt.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a sut mae plant yn dysgu. Maent yn adnabod cryfderau ac anghenion unigol y plant yn dda iawn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ogystal â llais y plentyn i gynllunio ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau creadigol a datrys problemau trwy ddewis a chymysgu perlysiau gyda thoes i greu pitsa iachus a phersawrus. O ganlyniad, mae'r addysgu'n ennyn diddordebau'r plant yn fwriadus ac yn datblygu annibyniaeth y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn trin y plant mewn modd cynnes, cyfeillgar a thyner ac yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, yn gwrando'n astud ar eu storïau, yn parchu eu syniadau, ac yn datblygu dealltwriaeth y plant trwy eu holi'n fedrus. Maent yn rheoli rhyngweithiadau, yn canmol plant am eu hymdrechion ag iaith gadarnhaol ac yn eu hannog i fod yn gwrtais a dweud *"os gwelwch yn dda"* a *"diolch"*.

Mae'r llu o weithgareddau awyr agored yn annog y plant i fentro a dod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd. Er enghraifft, pan fydd yn bwrw glaw, mae ymarferwyr yn annog y plant i feddwl pa synau a phatrymau y gallant eu creu wrth ddawnsio yn y pyllau glaw. Maent yn defnyddio'r foment a chyfleoedd buddiol tebyg yn grefftus i gynllunio gweithgareddau i blant archwilio a datblygu eu gwahanol fedrau.

Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel y tu fewn a thu allan, gan ganiatáu i'r plant ddewis yn annibynnol ble maent yn dymuno dysgu. Maent yn sicrhau bod gweithgareddau’n deillio o ddiddordebau plant, gan addasu eu darpariaeth yn fedrus i ymateb i'r diddordebau hyn, gan ennyn diddordeb y plant mewn chwarae a dysgu trwy ddatrys problemau.

Mae’r ymarferwyr yn fodelau rôl da. Er enghraifft, maent yn rhannu llyfrau gyda’r plant, gan fodelu sut i ddarllen llyfr yn gywir ac yn trafod y stori gyda brwdfrydedd, gan ddatblygu mwynhad plant mewn darllen. Mae’r ymarferwyr yn arsylwi’r chwarae ac ymyrryd yn gelfydd i gefnogi dysgu’r plant. Mae ymarferwyr yn aml yn defnyddio technegau holi effeithiol er mwyn annog y plant i feddwl drostynt eu hunain a datblygu eu dychymyg wrth iddynt chwarae.

Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o’r ardal leol i gyfoethogi dysgu’r plant. Er enghraifft, maent yn ymuno yn orymdaith flynyddol Owain Glyndŵr, ac yn fisol, maent yn ymweld â’r ganolfan gymunedol leol i dreulio amser gyda phobl mewn oed, gan ganu, pobi a gwneud crefftau. Mae cyfleoedd gwerth chweil fel hyn yn meithrin ymdeimlad o berthyn i’r gymuned leol yn ogystal â chyfoethogi gwybodaeth y plant am hanes a thraddodiadau Cymru.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio profiadau o ansawdd uchel sy’n galluogi plant i ddatblygu eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Enghraifft nodedig o hyn yw trwy weithgaredd creu pabi coch ac ymweld â'r gofadail leol i osod y pabis a dysgu am Ddydd y Cofio.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynnig amgylchedd hynod gyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd i'r plant gael eu herio a chymryd risgiau priodol. Mae hyn yn cefnogi eu holl feysydd dysgu a datblygu yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr wedi buddsoddi swm sylweddol i ddatblygu a gwella’r amgylchedd ar draws y feithrinfa.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o faterion iechyd a diogelwch perthnasol. Maent yn cofnodi gwiriadau diogelwch dyddiol, wythnosol a blynyddol ac mae pob rhan o'r lleoliad yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw mewn ffordd addas. Mae arweinwyr wedi datblygu asesiadau risg manwl. Maent yn eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ar gyfer teithiau y tu hwnt i'r lleoliad ac ar gyfer ymwelwyr sy’n darparu gwasanaeth neu’n helpu gyda phrofiadau dysgu’r plant. Maent yn ystyried yn ofalus y peryglon y tu mewn a'r tu allan er mwyn sicrhau bod camau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r ystafelloedd chwarae yn groesawgar ac yn gartrefol. Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas yn hwylus a chwarae yn ogystal ag ardaloedd iddynt ddod at ei gilydd yn gyfforddus fel grŵp. Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi datblygu'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ac adnoddau amrywiol, diddorol sy'n briodol o ran lefelau datblygiad, ar gael i'r plant. Maent yn gwneud defnydd arbennig o lawer o adnoddau naturiol sy’n datblygu chwilfrydedd y plant yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae ganddynt amrediad da o lestri a bwydydd go iawn yn yr

ardal tŷ bach twt. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ofalu am yr adnoddau ac i helpu i dacluso pan fyddant wedi gorffen chwarae.

Mae ardaloedd chwarae awyr agored penodedig i bob adran, o’r babanod i fyny at y plant hŷn. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd helaeth pellach i ddysgu a datblygu ym mhob maes. Caiff y plant gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol a chyffrous, yn union fel sydd tu fewn i’r adeilad. Er enghraifft, mae cyfleoedd iddynt fwynhau mannau i chwarae rôl, i ddatblygu eu medrau marcio a datblygu medrau rhifedd ac i chwarae yn y tywod a’r twba dŵr. Mae yna ardaloedd mawr a diogel ar gyfer reidio beics, a chynigir cyfleoedd rhagorol pellach iddynt archwilio'r byd naturiol mewn ardal goedwig ddiogel y gellir ei chyrraedd drwy daith fer ar droed o'r prif adeilad. Defnyddir ardal laswelltog ychwanegol wrth ymyl y lleoliad ar gyfer ymchwilio a chymryd risgiau dan oruchwyliaeth ymarferwyr. Er enghraifft, mae’r plant yn pwyso ysgol yn erbyn ffens bren i ddringo i fyny i gyrraedd lefel uwch lle mae rhisgl coed ac adnoddau ar gyfer llenwi a gwacáu. Mae’r plant yn ofalus wrth geisio dringo yn ôl i lawr yr ysgol gan sicrhau bod y sefyllfa’n ddiogel iddynt.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn ac adnoddau o ansawdd rhagorol sy'n briodol o ran oedran y plant, gan gynnwys rhai sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol fel dillad gwisgo i fyny. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn briodol ar gyfer y plant.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae gan y person â gofal ddisgwyliadau uchel ohonyn hi ei hun, ymarferwyr a phlant. Mae hi’n darparu arweinyddiaeth gryf i ymarferwyr ac mae ganddi ddyheadau uchel ar eu cyfer, gan eu grymuso i arwain a gwneud penderfyniadau er lles y plant. Mae’r weledigaeth a’r ethos clir hwn yn arwain at waith tîm cadarn a chydweithio llwyddiannus ymhlith ymarferwyr. Mae hyn yn creu amgylchedd diogel a chartrefol i blant ffynnu ynddo. Mae’r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. O ganlyniad, mae’r plant wrth eu boddau yn mynychu’r lleoliad ac yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant cadarn sy’n ystyried safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid. Mae’r person â gofal yn ymgynghori â rhieni a gofalwyr yn rheolaidd i gael eu barn am y lleoliad a’r hyn sydd angen ei wella. Yn ogystal, mae hi’n darparu cyfleoedd gwerthfawr i’r ymarferwyr fyfyrio ar eu gwaith a thrafod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella. Defnyddir yr holl wybodaeth hon yn fwriadus i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cryf o werthuso parhaus, gan anelu am ddarpariaeth o’r safon uchaf ar gyfer y plant yn eu gofal.

Mae’r lleoliad yn defnyddio’r gyllideb a’r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau yn bwrpasol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo profiadau cyffrous ac addysgol i’r plant, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel canopi, sied darllen a gwahanol feiciau yn yr ardaloedd allanol.
Mae’r person cofrestredig yn dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro ymarferwyr yn rheolaidd. Gyda'i gilydd, maent yn myfyrio ar eu rolau, eu cyfrifoldebau, yn adnabod targedau synhwyrol ar gyfer gwella ac yn trefnu

hyfforddiant gwerthfawr o ansawdd da, yn ôl yr angen. Er enghraifft, trefnwyd hyfforddiant arsylwi ac asesu er mwyn cefnogi gwybodaeth yr holl dîm am sut i adnabod yn fwriadus lle mae'r plant arni o ran eu medrau er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau effeithiol sy'n hyrwyddo dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae cysylltiadau cryf â'r rhieni, gyda'r gymuned leol a gyda swyddogion yr awdurdod addysg lleol. Mae cysylltiadau cadarnhaol wedi gwreiddio'n effeithiol gyda'r ysgolion lleol. O ganlyniad, mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn hwylus a didrafferth.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 26 Mawrth 2024